Eisteddfod Gwyl Dewi, Tyddewi, 2020

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Gwyl Dewi ar 28 Chwefror yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi. Mwynhaodd cynulleidfa fawr y cystadlaethau llwyfan a gweld y nifer fawr o geisiadau yn y cystadlaethau crefft, blodau, llenyddiaeth, ffotograffiaeth a choginio.

Enillwyd y Gadair, am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr holl gystadlaethau, gan Jane James. Enillwyd y Darian, a roddwyd gan aelodau a ffrindiau Capel Methodistiaid Calfinaidd Caerfarchell am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau celf a chrefft, gan Sally Martyn. Enillwyd Cystadleuaeth y Pin Rholio, am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau coginio gan Elspeth Cotton.

Enillwyd y cwpan arian ar gyfer unawd emyn, a roddwyd gan John a Glenys James, gan Jane James ac enillwyd Tarian Goffa Thomas James, Ysgeifiog, ar gyfer dawnsio gwerin, gan Parti'r Ddinas.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl gystadleuwyr, y beirniaid, yr arweinydd, y cyfeilyddion a'r cynorthwywyr am wneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant. Y thema ar gyfer eisteddfod y flwyddyn nesaf, a gynhelir ar Ddydd Gwener 26 Chwefror, yw Gwyliau. Gellir cael rhagor o fanylion gan y cydlynydd Glenys James, ffôn 01437 720447.